**Mae Rachael Lavelle yn gantores a chyfansoddwraig a aned yn Nulyn sy'n swyno cynulleidfaoedd gyda'i llais trawiadol a'i harsylwadau doniol am fodolaeth. Mae ei pherfformiadau byw hypnotig, sy'n cyfuno dylanwadau clasurol a chyfoes, yn asio seinweddau electronig gyda gair llafar a chanu nwyfus.**
Rachael Lavelle is a Dublin born singer and composer who captivates audiences with her arresting voice and humorous observations on existence. Merging classical and contemporary influences, her hypnotic live performances blend electronic soundscapes with spoken word and acrobatic vocals.



## RED TELEPHONE

Genre: Pop Synth, New Wave a Roc Seic
Genre: Synth Pop, New Wave and Psych Rock

**Gallai roc neo-seic amlhaenog Red Telephone o Gaerdydd, fod wedi deillio o glybiau LA dystopaidd Blade Runner. Gan gyfuno gitarau symudliw, onglog, rhythmau wedi'u hysbrydoli gan Krautrock a syntheseiddwyr New Wave gyda melancoli trawiadol a melodaidd, mae'r band wedi dal sylw DJs fel Steve Lamacq, Amy Lame, Huw Stephens, Charlie Ashcroft, Gideon Coe a Bethan Elfyn, gan arwain at eu cymharu â MGMT a Bowie cyfnod Berlin a'u tebyg.**
Hailing from Cardiff, Red Telephone's richly layered neo-psych rock could have emanated from the clubs of Blade Runner's dystopian LA. Combining shimmering, angular guitars, Krautrock-inspired rhythms and New Wave-tinged synths with an infectious and melodic melancholy, the band has caught the attention of DJs such as Steve Lamacq, Amy Lame, Huw Stephens, Charlie Ashcroft, Gideon Coe and Bethan Elfyn, with comparisons to the likes of MGMT and Berlin-era Bowie being drawn.



## ROUGHION

Genre: Acid House, House, Drymio a Bas, Tecno, Arbrofol
Genre: Acid House, House, Drum and Bass, Techno, Experimental

**Yn fras, mae'r ddeuawd electronig yma'n creu cerddoriaeth ddawns mewn llawer o'i ffurfiau amrywiol: o electronica mwy arbrofol Newport Road i ailgymysgu swnllyd caneuon gan Band Pres Llareggub a HMS Morris ac eraill. Mae Roughion yn creu llu o genres ac maen nhw'n gallu darparu unrhyw awyrgylch yn ystod set, o alawon parti nerthol eu cerddoriaeth clwb a dawns i'w traciau trip hop ac asid mawreddog. Dydych chi byth yn gwybod beth sydd o'ch blaenau**

**gyda'r ddau ŵr hyn o Ganolbarth Cymru, ac mae hynny'n rhan o'r daith.**
Broadly, this electronic duo make dance music in many forms: from the more experimental electronica of Newport Road to their woofer-shuddering remixes of the likes of Band Pres Llareggub and HMS Morris and their cheeky bootlegs. Roughion are capable of providing any atmosphere during a set, from their club and dance music heavy party tunes to their trip hop and acidic chuggers, you never know what you're going to get with these 2 men from Mid Wales and that's part of the journey.



## RYE MILLIGAN

Genre: Indi, Electronig, Pop
Genre: Indie, Electronic, Pop

**Mae'r cyfansoddwr caneuon, y cynhyrchydd a'r perfformiwr, Rye Milligan, sy'n hanu o Fae Ceredigion, wedi bod yn meithrin ei ddawn yn Llundain fel artist annibynnol. Mae'n fwyaf adnabyddus am fod yn gitarydd a chyd-gyfansoddwr yn y band 'Luna Bay' sy'n cael ei hyrwyddo gan BBC Radio 1, ond mae'r prosiect newydd hwn yn gweld Rye yn flaenllaw ar y llwyfan. Yn gerddorol, meddyliwch Chet Faker yn cwrdd â Maggie Rogers.**
Hailing from Cardigan Bay, songwriter, producer and performer, Rye Milligan, has been cutting his teeth in London as an independent artist. Best known for being the guitarist and co-songwriter for BBC Radio 1 championed band 'Luna Bay', this new project see's Rye take centre stage. Musically, think Chet Faker meets Maggie Rogers.



## SAMANA

Genre: Gwerin Seicedelig, Roc amgen, Roc-gelf, Indi, Roc-seicedelig
Genre: Psychedelic Folk, Alternative rock, Art-rock, Indie, Psychedelic-rock

**Mae Samana yn brosiect amlddisgyblaethol sy'n cynnwys y bardd a'r ffotograffydd gwobrwyedig Rebecca Rose Harris a'r cynhyrchydd ac aml-offerynnwr Franklin Mockett. Mae pob cân a grëir gan Samana wedi'i llunio â phŵer ethereal a gonestrwydd emosiynol sy'n cynnig llwybr uniongyrchol i'n hanfod ni ein hunain, gan ysgwyd ein haen arwynebol, gyda'i ansawdd siamanaidd. Dyma i chi gerddoriaeth i'r enaid.**
Samana, is a multidisciplinary project made up of award winning poet and photographer Rebecca Rose Harris and producer and multi-instrumentalist Franklin Mockett. Each song created by Samana is constructed with an ethereal power and an emotional honesty which offers a direct passage into the essence of ourselves, removing one's veneer, with its shamanic quality. This is music for the soul.



## SASHA SAMARA

Genre: Pop, Pop-indi
Genre: Pop, Indie-Pop

**Mae Sasha Samara, llais cyffrous, newydd yng ngherddoriaeth bop indi, yn cyflwyno ei cherddoriaeth gyda gonestrwydd hoffus, gan bwytho ynghyd**

**arsylwadau ac ebychiadau sy'n cael eu tanlinellu gan benodolrwydd gwefreiddiol. Gyda geiriau gonest a chysylltiad merch drws nesaf, enillodd slot yn y Ruby Sessions yn Nulyn ac ym mis Tachwedd 2020, enillodd wobr y New Contender yng Ngwobr Cerddoriaeth Gogledd Iwerddon.**
Sasha Samara, an exciting, new voice in indie pop music, coats her music in an endearing honesty, threading together observations and exclamations that are underlined by a thrilling specificity. Armed with candid lyrics and girl-next-door connection, she earned a slot at the coveted Ruby Sessions in Dublin and in November 2020, the New Contender Award at the NI Music Prize.

---



## SEAZOO

Genre: Pop-indi
Genre: Indie-pop

**Mae'r meistri indi-pop swnllyd o Gymru Seazoo yn cael eu dylanwadu gan actau fel Yo La Tengo, Courtney Barnett a Grandaddy. Mae'r grŵp pum aelod cyffrous wedi cael cefnogaeth sylweddol ar draws y gymuned o ddylanwadwyr cerddorol (Q Magazine, DIY, The Line Of Best Fit, Clash, Dork) ac ar draws y tonnau awyr (BBC Radio 1, 6 Music) ac mae eu henw rhagorol fel act fyw eithriadol o dda wedi arwain at ymddangosiadau yn SXSW, The Great Escape a Green Man a slotiau gydag IDLES, The Lovely Eggs a Circa Waves.**
Welsh noisy indie-pop maestros Seazoo are influenced by the likes of Yo La Tengo, Courtney Barnett and Grandaddy. The rousing five-piece have enjoyed significant support throughout the tastemaker community (Q Magazine, DIY, The Line Of Best Fit, Clash, Dork) and across the airwaves (BBC Radio 1, 6 Music), with their glowing reputation as an exceptional live act leading to appearances at SXSW, The Great Escape and Green Man and slots with IDLES, The Lovely Eggs and Circa Waves.

---



## SKINNER

Genre: Ôl-pync, Roc, New Wave, Indi, Amgen
Genre: Post punk, Rock, New Wave, Indie, Alternative

**Mae Skinner, sy'n 24 oed ac yn byw yn Nulyn, yn gerddor roc slouch DIY sy'n ysgrifennu, recordio a chynhyrchu caneuon am dyfu i fyny a goresgyn bodolaeth annymunol yn yr 21ain ganrif. Mae DNA actau no wave ac ôl-pync fel The B52s, James Chance and the Contortions ac ESG hyd at fawrion alt-roc Pixies a Morphine, wedi'i gyfuno â dawn am hunan-gynhyrchu gyda thuedd am grunge ac ysbeidiau o offeryniaeth wych yn diferu o gerddoriaeth Skinner.**
Skinner is a 24-year-old DIY slouch rock musician based in Dublin who writes, records and produces songs about growing up and overcoming a dirt-flecked 21st century existence. The DNA of no wave and post-punk acts like The B52s and James Chance through to alt-rock touchstones Pixies and Morphine combined with a talent for grunge-nodding self-production and pockets of elevated instrumentation is oozing from Skinner's music.



## STEPHEN JAMES SMITH

Genre: Barddoniaeth, y Gair Llafar, Storïa, Seanchaí
Genre: Poetry, Spoken Word, Storytelling, Seanchaí

**Mae Stephen James Smith yn fardd a dramodydd o Ddulyn sy'n ganolog i dwf bywiog sîn y gair llafar yn Iwerddon heddiw. Hyd yma, mae ei fideos barddoniaeth wedi cael eu gwylio dros 4 miliwn o weithiau ar-lein.**
Stephen James Smith is a Dublin poet and playwright central to the rise of the vibrant spoken word scene in Ireland today. To date, his poetry videos have amassed over 4 million views online.



## TAPESTRI

Genre: Gwerin Ddwyieithog, Americana, Roots
Genre: Bilingual Folk, Americana, Roots

**Cyfarfod ar hap arweiniodd at ffurfio'r band Tapestri. Yn haf 2019, cyfarfu'r cantorion-cyfansoddwyr o Gymru Lowri Evans a Sarah Zyborska (SERA) yn Festival Interceltique de Lorient. Gyda brwdfrydedd dros gerddoriaeth werin ac Americana a'r awydd i ffurfio band dwyieithog gyda menywod wrth y llyw yn eu symbylu, aethant ati'n fuan wedi hynny i ddechrau ysgrifennu caneuon sy'n tynnu eu lliwiau cerddorol o balet eang, gan gynnwys Canu Gwerin, Canu Gwlad, Americana, a Roots.**

Tapestri is a band sparked by a chance meeting between Welsh singer/songwriters Lowri Evans and Sarah Zyborska (SERA) at Festival Interceltique de Lorient in the summer of 2019. Fuelled by their passion for folk and Americana music and the desire to form a bilingual female-fronted band, they soon after started carving out songs that take their musical colours from a broad palette that includes Folk, Country, Americana and Roots.



## TEBI REX

Genre: hip-hop, Pop Amgen, Amgen
Genre: hip-hop, Alt Pop, Alternative

**Yn cynnwys rhai o ganeuon tywyllaf, mwyaf ymosodol y band ochr yn ochr ag eiliadau yn heulwen pop amgen, mae'r ail albwm It's Gonna Be Okay yn mynd i'r afael â bywyd yn Iwerddon fodern, gwleidyddiaeth, hiliaeth, marwolaeth, pryder, llymder, cyfryngau cymdeithasol ac eiliad o eglurder ar noson wlyb yn Nulyn. Gan wyro o'r gred y bydd pethau'n iawn yn y pendraw i'r gwrthwyneb llwyr, daw'r albwm i ryw fath o gasgliad.**
Featuring some of the band's darkest, most aggressive songs alongside moments in the alternative pop sunshine, second album It's Gonna Be Okay tackles life in modern Ireland, politics, racism, death, anxiety, austerity, social media and a moment of clarity on a rainy Dublin evening. Veering from the belief that it indeed will be alright in the end to the exact opposite, the album comes to some sort of conclusion.



## TIMBALI (& PEPPERY)

Genre: Reggae, Dancehall, Dawns Dub
Genre: Reggae, Dancehall, Dub Dance

**Fe ffrwydrodd Timbali, y DJ/cynhyrchydd o Gymru i'r sîn yn 2015, gyda'i gynyrchiadau slic a'i arddull eclectig, ac mae wedi cael llwyddiant ar y sîn reggae a dancehall. Wrth i'w lwyddiant barhau gyda'i gynyrchiadau stiwdio, fel y record sengl rhif 1 ar Beatport 'Killing Sound' gyda Skarra Mucci a nifer o'i draciau eraill, gan gynnwys "All My Days" gyda Lutan Fyah a "Dead Yuh Dead" gyda Peppery yn cael eu chwarae ar Radio'r BBC, mae'r sioeau byw wedi ei wneud yn dipyn o ffefryn yn y gwyliau cerdd.**

Exploding onto the scene in 2015 Welsh DJ/producer Timbali, with his tight productions and eclectic style, has become a successful figure in the reggae and dancehall scene. As success continues with his studio productions, such as the no.1 single on Beatport 'Killing Sound' with Skarra Mucci and numerous BBC Radio plays of other tracks, including "All My Days" featuring Lutan Fyah and "Dead Yuh Dead" featuring Peppery, the live shows have seen him become a festival favourite.



## VRÏ

Genre: Gwerin, Gwerin Siambr
Genre: Folk, Chamber-Folk

**Mae Jordan Price Williams (sielo, llais), Aneirin Jones (feiolin, llais) a Patrick Rimes (fiola, feiolin, llais) – yn dri gŵr ifanc o berfeddion Cymru, gyda'i hanes hirfaith o fynychu'r capel. Aethant ati i gloddio i gynnwrf diwylliannol y canrifoedd diwethaf a chawsant eu hysbrydoli gan stori anhygoel cyfnod pan gafodd cerddoriaeth a dawns draddodiadol Cymru eu llethu gan gapeli'r Methodistiaid, ac, yn gynharach, ei hiaith gan y Ddeddf Uno. Mae harmonïau tair rhan, chwarae ffidil syfrdanol ac ychwanegiad anarferol y sielo yn creu sain VRï sy'n gwbl unigryw.**

Jordan Price Williams (cello, voice), Aneirin Jones (violin, voice) and Patrick Rimes (viola, violin, voice) - are three young men from deepest chapel-going Wales who have mined the cultural upheaval of past centuries and drawn inspiration from the incredible story of a time when Wales' traditional music and dance was suppressed by Methodist chapels, and, earlier, its language by the Act of Union. Three-part harmonies, stunning fiddle playing and the unusual addition of cello forge the VRï sound that is totally unique.



## YNYS

Genre: Pop Amgen, Pop Seicedelig, Indi
Genre: Alternative Pop, Psychedelic Pop, Indie

**Ynys yw prosiect Dylan Hughes, gynt o Race Horses a Radio Luxembourg. Mae caneuon Ynys yn gasgliad o harmonïau meloncolaidd, dros drac sain o ddilynianwyr yr 80au, peiriannau llinynnau y 70au a gitarau fuzz.**
Ynys (Island) is the project of Dylan Hughes, ex-Race Horses and Radio Luxembourg. The songs of Ynys are a rich collection of melancholic harmonies, over a soundtrack of 80's sequencers, 70's string machines, and fuzz guitars.

CLEBRAN



# CLEBRAN

3–5 Tachwedd / November 2022
Wales / Cymru
#OVC22

## Dychymyg Cysylltiedig / Connected Imagination / Comhshamhlaíocht

Mewn partneriaeth ag /
In partnership with /
i gcomhpháirt le
Ireland's Edge



## Dydd Iau 03 Thursday 03

4.00 PM
**Celtiaid Cynddeiriog / Raving Celts / Na Ceiltigh Craiceáilte**

Christopher Kissane
(llywydd / host / Óstach)
Billy Mag Fhloinn
Eddie Ladd

5.15 PM
**Ceidwaid Y Fflam / Keepers Of The Flame / Ag Caomhnú An Dúchais**

Jude Rogers
(llywydd / host / Óstach)
Gwenno
Iarla Ó Lionáird
Sage Todz

## Dydd Gwener 04 Friday 04

2.00 PM
**Adleisiau Ymerodraeth / Echoes Of Empire / Féach An Traoi**

Marian Gwyn
(llywydd / host / Óstach)
Emma Dabiri
Diarmaid Ferriter
Richard Wyn Jones

3.15 PM
**Pwy Ydym Ni: Diwylliant, Hunaniaeth A'r Cymry A'r Gwyddelod Ar Wasgar / Who Are We: Culture, Identity and Diaspora / Cé Muid: Cultúr, Féiniúlacht agus Diaspóra**

Huw Stephens
(llywydd / host / Óstach)
Aoife Ní Bhriain
First Minister of Wales
Mark Drakeford
Prif Weinidog Cymru
Mererid Hopwood

## Dydd Sadwrn 05 Saturday 05

2.00 PM
**Dychmygu'r Dyfodol / Imagining The Future / Tuar Na Todhchaí**

Christopher Kissane
(llywydd / host / Óstach)
Jane Davidson
Rabab Ghazoul
Róise Goan
Molly Palmer

SOUTH WIND BLOWS MWLDAN TRIONGL IRELAND'S EDGE
S4C RTÉ

## CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

**Sut byddwn ni'n creu ein lle ac yn gwneud ein ffordd yn y byd cyfnewidiol hwn, gan adeiladu cymdeithas sefydlog, gynaliadwy, ymgysylltiol sy'n gwerthfawrogi croestoriad diwylliant, dinasyddiaeth ac economi? Cyfres o drafodaethau a pherfformiadau wedi'u llunio'n ofalus gydag artistiaid, newyddiadurwyr, unigolion creadigol a gwleidyddion sy'n sbarduno sgyrsiau bywiog a chyfoethog ynghylch ein canfyddiad o'n byd, ein hiaith a'n diwylliant. Bydd y digwyddiadau hyn yn cychwyn yr ŵyl bob dydd ar ddechrau'r prynhawn dros y tridiau.**

How will we create our place and make our way in this changing world, building a stable, sustainable, engaged society that values the intersection of culture, citizenship and economy? A series of carefully assembled discussions and performances with artists, journalists, creatives and politicians; sparking enriching, lively conversations about how we perceive our world, language and culture. These events will kick off the festival each day in the early afternoon across the three days.

Dydd Iau 03 / Thursday 03
16:00

---

## CELTIAID CYNDDEIRIOG / RAVING CELTS

**Mae ein trafodaethau Clebran yn dechrau gydag ail-ddychmygu traddodiadau gwerin ar y cyd. Cafodd Pagan Rave ei greu gan y llên gwerinwr, y cerddor a'r archeolegydd Billy MagFhloinn fel modd o archwilio syniadau ynghylch seremoni ac arfer hynafol. Mae cerddoriaeth, gwisgoedd, symudiad a theimlad o lawenydd cyfunol yn galluogi'r rheiny sy'n cymryd rhan i gael profiad uniongyrchol o'r rôl y mae'r defodau hyn yn ei chwarae, ddoe a heddiw. Gan weithio gyda'r perfformiwr Eddie Ladd, mae'r ddau wedi creu perfformiad unigryw ar gyfer Clebran sy'n dod â syniadau o'n traddodiadau hynafol ynghyd ac yn eu hailddychmygu.**

Our Clebran discussions begin with a collective reimagining of folk traditions. Folklorist, musician and archaeologist Billy Mag Fhloinn created Pagan Rave as a means of exploring ideas of ancient ceremony and custom. Music, costume, movement and the sensation of collective joy allows those taking part to directly experience the role these rituals play, then and now. Working with performer Eddie Ladd, the two have created a unique performance for Clebran that brings together ideas of our ancient traditions and reimagines them.

| | |
|---|---|
| Llywydd / Host | **CHRISTOPHER KISSANE** |
| Siaradwyr & Perfformwyr<br>Speakers & Performers | **BILLY MAG FHLOINN**<br>**EDDIE LADD** |



## CHRISTOPHER KISSANE

**Hanesydd ac awdur o Kerry yw Christopher Kissane. Mae'n Gymrawd Golygyddol gyda History Workshop ac mae ei waith ysgrifenedig yn ymddangos mewn cyhoeddiadau sy'n cynnwys yr Irish Times, The Guardian a The Financial Times.**
Christopher Kissane is a historian and writer from Kerry. An Editorial Fellow with History Workshop, his writing appears in publications that include the Irish Times, The Guardian and The Financial Times.



## BILLY MAG FHLOINN

**Mae'r llên gwerinwr a'r archeolegydd Billy Mag Fhloinn yn saernïo ac yn chwarae replicâu o offerynnau cynhanesyddol. Sefydlodd Pagan Rave ac mae'n darlithio mewn Astudiaethau Gwyddelig yn Dingle.**
Folklorist and archaeologist Billy Mag Fhloinn builds and plays replica prehistoric instruments. He founded Pagan Rave and lectures in Irish Studies in Dingle.



## EDDIE LADD

**Mae Eddie yn berfformiwr theatr gorfforol, yn gyfarwyddwr symud ac mae'n arwain gwaith yn y gymuned. Cyfuna goreograffi, sgript a thechnoleg o bob math yn ei darnau, sy'n cael eu llwyfannu ar draws y byd.**
Eddie is a physical theatre performer, a movement director and leads community performance. She combines choreography, script and technology of all kinds in her productions, which are staged all over the world

Dydd Iau 03 / Thursday 03
17:15

## CEIDWAID Y FFLAM / KEEPERS OF THE FLAME

**Dyma i chi sgwrs yn cynnwys cantorion a cherddorion eithriadol sy'n adfywio, cadw a hyrwyddo'r Wyddeleg, y Gymraeg a'r Gernyweg trwy gerddoriaeth a chân. Cawn glywed am eu teithiau iaith eu hunain a sut y daeth mynegi eu hunain trwy wahanol ieithoedd mor bwysig i'w dychymyg creadigol. Perfformiad gan Irla O'Lionaird.**

A conversation featuring some exceptional singers and musicians who are reviving, preserving and promoting the Irish, Welsh and Cornish languages through music and song. We will hear about their own language journeys and how expressing themselves through different tongues became so important to their creative imaginings. Performance from Iarla O'Lionaird.

| | |
|---|---|
| Llywydd / Host | **JUDE ROGERS** |
| Siaradwyr & Perfformwyr<br>Speakers & Performers | **GWENNO**<br>**IARLA Ó LIONÁIRD**<br>**SAGE TODZ** |



### JUDE ROGERS

**Mae Jude Rogers yn un o ysgrifenwyr gorau'r DU ym maes cerddoriaeth. Hi yw awdures The Sound of Being Human, mae'n newyddiadurwraig ac yn ddarlledwraig.**
Jude Rogers is one of the UK's finest music writers. She is the author of The Sound of Being Human, a journalist and a broadcaster.



### GWENNO

**Tresor (Trysor) albwm diweddaraf Gwenno yw'r albwm cyntaf nad yw yn Saesneg i gyrraedd rhestr fer Gwobr Mercury. Magwyd hi yng Nghaerdydd yn siarad Cernyweg a Chymraeg ac yn dysgu dawnsio Gwyddelig, ac fe ymunodd â sioe Lord of the Dance Michael Flatley yn Las Vegas pan oedd yn 16 oed.**
Gwenno's latest album Tresor (Treasure) is the first Mercury Prize shortlisted album not in the English language. Raised in Cardiff speaking Cornish and Welsh and learning Irish dance, she joined Michael Flatley's Lord of the Dance show in Vegas age 16.



## IARLA Ó LIONÁIRD

**Mae gyrfa hir ac unigryw Iarla Ó Lionáird a enwebwyd ddwywaith ar gyfer Grammy yn herio dosbarthiadau genre. Mae wedi perfformio a recordio gyda Peter Gabriel, Nick Cave, Robert Plant a Sinead O'Connor.**
Twice Grammy nominated Iarla Ó Lionáird's long and unique career defies genre classifications. He has performed and recorded with Peter Gabriel, Nick Cave, Robert Plant and Sinead O'Connor.



## SAGE TODZ

**Mae Sage yn rapiwr o Gymru sy'n cynhyrchu cerddoriaeth Gymraeg a Saesneg. Mae ei drac 'O Hyd' yn ailwampiad o gân brotest enwog Dafydd Iwan, Yma O Hyd, sydd wedi'i mabwysiadu gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer ei thaith i rowndiau terfynol Cwpan y Byd.**
Sage is a Welsh rapper producing both Welsh and English language music. His track 'O Hyd' remakes Dafydd Iwan's famous protest song Yma O Hyd, which has been adopted by the Football Association of Wales ahead of Wales' journey to the World Cup finals.

**Dydd Gwener 04 / Friday 04**
**14:00**

## ADLEISIAU'R YMERODRAETH / ECHOES OF EMPIRE

**Mae'r Cymry a'r Gwyddelod yn rhannu'r sefyllfa annymunol o fod ymhlith y bobloedd cyntaf i gael eu gwladychu gan Loegr, ac mae'r hanesion poenus hynny'n sail i'n meddylfryd cenedlaethol. Sonnir llai am y ffyrdd y chwaraeodd pob un ran yn y peiriant trefedigaethol, a'r manteision a ddaeth yn sgil hynny. Mae ein panel yn datrys y cymhlethdodau i'n helpu i ddeall sut rydym wedi cyrraedd yma heddiw a sut y gallem symud ymlaen.**

The Welsh and the Irish share the unenviable position of being amongst the first peoples to be colonised by England, and those painful histories underpin our national psyches. Less spoken of are the ways in which each played a part in the colonial machine, and the benefits that followed. Our panel unravels the complexities to help us understand how we have arrived at today and how we might move forward.

Llywydd / Host — **MARIAN GWYN**

Siaradwyr
Speakers — **EMMA DABIRI**
**DIARMAID FERRITER**
**RICHARD WYN JONES**



### MARIAN GWYN

**Mae Dr Marian Gwyn yn ymgynghorydd treftadaeth sy’n arbenigo ar hanes trefedigaethol, yn enwedig cysylltiadau rhwng y fasnach gaethweision a Chymru.**
Dr Marian Gwyn is a heritage consultant specialising in colonial history, especially connections between the slave trade and Wales.



### EMMA DABIRI

**Mae gwaith Emma Dabiri yn rhychwantu’r byd academaidd, y cyfryngau a’r celfyddydau. Mae hi’n awdures dau lyfr sydd wedi gwerthu’n llwyddiannus yn rhyngwladol; What White People Can Do Next (2021) a Don’t Touch My Hair (2019). Enillodd ei rhaglen ddogfen deledu ddiweddaraf Hair Power (2020) wobr Silver Lion yng Nghannes.**
Emma Dabiri’s work spans academia, media, and the arts. She is an internationally bestselling author of two books; What White People Can Do Next (2021) and Don’t Touch My Hair (2019). Her most recent TV documentary Hair Power (2020) won a Silver Lion award at Cannes.



### DIARMAID FERRITER

**Mae Diarmaid Ferriter yn Athro Hanes Iwerddon Fodern yng Ngholeg Prifysgol Dulyn, yn ddarlledwr rheolaidd ar deledu a radio, yn golofnydd i’r Irish Times ac yn sgriptiwr.**
Diarmaid Ferriter is Professor of Modern Irish History at University College Dublin, a regular broadcaster on television and radio, a columnist for the Irish Times and a screenwriter.



### RICHARD WYN JONES

**Richard Wyn Jones yw Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd. Mae’n sylwebu’n rheolaidd yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae wedi ysgrifennu’n helaeth ar wleidyddiaeth Cymru, gwleidyddiaeth ddatganoledig yn y DU a chenedlaetholdeb.**
Richard Wyn Jones is Director of Cardiff University’s Wales Governance Centre. He is a regular broadcaster in Welsh and English and has written extensively on contemporary Welsh politics, devolved politics in the UK and nationalism.

Dydd Gwener 04 / Friday 04
15:15

## PWY YDYM NI: DIWYLLIANT, HUNANIAETH, CREADIGEDD A'R CYMRY A'R GWYDDELOD AR WASGAR / WHO ARE WE: CULTURE, IDENTITY AND DIASPORA

**Mae tirweddau diwylliannol Cymru ac Iwerddon yn gonglfeini i'n hunaniaeth, boed hynny ar gyfer y rheiny gartref neu'r rheiny sydd oddi cartref. Roedd creadigrwydd a chysylltiad yn arwain y ffordd ac nad ydynt erioed wedi bod yn fwy hanfodol ar gyfer ein llwybrau i'r dyfodol. Mae pob un o'n panelwyr wedi archwilio'r syniadau hyn o wahanol safbwyntiau ac yn rhannu meddyliau am beth y gallai hyn ei olygu ar gyfer ein dyfodol cyfunol. Perfformiad gan Aoife Ní Bhriain.**

The cultural landscapes of Wales and Ireland are keystones for our identities, be it for those at home or those away. Creativity and connection paved the way and have never been more vital for our onward paths. Our panellists have each explored these ideas from different vantage points and share thoughts on what this might mean for our collective futures. Performance from Aoife Ní Bhriain.

| | |
|---|---|
| Llywydd / Host | **HUW STEPHENS** |
| Siaradwyr & Perfformwyr<br>Speakers & Performers | **AOIFE NÍ BHRIAIN**<br>**FIRST MINISTER OF WALES**<br>**MARK DRAKEFORD**<br>**PRIF WEINIDOG CYMRU**<br>**MERERID HOPWOOD** |



### HUW STEPHENS

**Mae Huw Stephens yn ddarlledwr sy'n cyflwyno ar draws y BBC, ar Radio Wales, Radio Cymru, a BBC Radio 6 Music. Enillodd ei raglen ddogfen Anorac 4 gwobr Bafta Cymru, gan gynnwys y Cyflwynydd Gorau.**
Huw Stephens is a broadcaster who presents across the BBC, on Radio Wales, Radio Cymru, and BBC Radio 6 Music. His documentary Anorac won 4 Bafta Cymru Awards, including Best Presenter, in 2019.



### AOIFE NÍ BHRIAIN

**Mae Aoife Ní Bhriain yn feiolinydd gwobrwyedig ac yn un o gerddorion mwyaf amryddawn ei chenhedlaeth, sy'n tynnu ar ddylanwadau traddodiadol, clasurol ac avant garde.**
Aoife Ní Bhriain is an award-winning violinist and one of the most versatile musicians of her generation, drawing on traditional, classical and avant garde influences.



**Y GWIR ANRH MARK DRAKEFORD AS, PRIF WEINIDOG CYMRU / FIRST MINISTER OF WALES RT HON MARK DRAKEFORD MS**

**Mark Drakeford yw Prif Weinidog Cymru. Cafodd ei eni a'i fagu yng ngorllewin Cymru. Mae'n gyn-swyddog prawf ac arweinydd prosiect gyda Barnardos a bu'n gwasanaethu'n flaenorol yn Llywodraeth Cymru fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**
Mark Drakeford is the First Minister of Wales. He was born and brought up in west Wales. A former probation officer and Barnardos project leader, he previously served in the Welsh Government as Cabinet Secretary for Finance and Minister for Health and Social Services.



**MERERID HOPWOOD**

**Bardd o Gymru yw Mererid Hopwood. Yn 2001, hi oedd y fenyw gyntaf i ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Mae ei geiriau wedi cael eu defnyddio gan gerddorion, artistiaid gweledol a dawnswyr.**
Mererid Hopwood is Welsh poet. In 2001 she became the first woman to win the Bardic Chair at the National Eisteddfod of Wales. Her words have been used by musicians, visual artists and dancers.

**Dydd Sadwrn 05 / Saturday 05**
**14:00**

## DYCHMYGU'R DYFODOL / IMAGINING THE FUTURE

**Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu er mwyn amddiffyn y rheiny nad ydynt wedi'u geni eto drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae llawer o'r nodau hynny'n llifo i gyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru a chydgynllun gweithredu 2021-2025. Gofynnwn i'n panel ein helpu i ragweld sut y gall celf, creadigrwydd a diwylliant helpu i wireddu'r nodau hynny, lleisiau pwy sydd eu hangen a phwy sy'n cael penderfynu?**

Wales was the first country in the world to legislate for the protection of those not yet born via the Wellbeing of Future Generations Act, and many of those goals flow into the Ireland-Wales shared statement and joint action plan 2021-2025. We ask our panel to help us envisage how art, creativity and culture can help realise those goals, whose voices are needed and who gets to decide?

Llywydd / Host **CHRISTOPHER KISSANE**

Siaradwyr
Speakers

**JANE DAVIDSON**
**RABAB GHAZOUL**
**RÓISE GOAN**
**MOLLY PALMER**



## JANE DAVIDSON

**Jane Davidson, Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol a chyn-weinidog Cymru yw awdur #futuregen: Lessons from a Small Country, y stori sy'n egluro pam mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol.**
Jane Davidson, University Pro Vice-Chancellor and former Welsh minister, is the author of #futuregen: Lessons from a Small Country, the story of why Wales was the first country in the world to introduce legislation to protect future generations.



## RABAB GHAZOUL

**Mae Rabab Ghazoul yn artist gweledol sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, yn guradur, ac yn sylfaenydd/cyfarwyddwr Gentle/Radical yng Nghaerdydd. Cafodd Gentle/Radicacl ei enwebu am Wobr Turner ac mae ei waith yn cwrdd ar groestoriad arfer. Fe'i ganwyd ac fe'i magwyd yn Irac, a bu'n byw yng Nghymru ers 1989.**
Rabab Ghazoul is a socially engaged visual artist, curator, and founder/director of Turner Prize nominated Cardiff-based Gentle/Radical, whose work meets at the intersections of cultural practice, healing justice, and neighbourhood renewal. Born and raised in Iraq, she has lived in Wales since 1989.



## RÓISE GOAN

**Róise Goan yw Cyfarwyddwr Artistig Artsadmin yn Llundain. Yn flaenorol, hi oedd Cyfarwyddwr Gŵyl Ymylol Dulyn o 2009-2013. Mae hi hefyd yn aelod anweithredol o Gyngor Celfyddydau Iwerddon.**
Róise is the Artistic Director of Artsadmin in London. Previously, she was the Director of the Dublin Fringe Festival from 2009-2013. She is also a non-exec member of The Arts Council of Ireland.



## MOLLY PALMER

**Mae Molly Palmer yn DJ, yn gyflwynydd ac yn aelod alwmni Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n arbenigo mewn creu cyfleoedd yn y diwydiant creadigol i bobl ifanc.**
Molly Palmer is a DJ, presenter and alumni member of the Future Generations Leadership Academy. She specialises in creating opportunities in the creative industry for young people.

# Diolch o galon i...
# A big thank you to...

Catrin Henry | Cered | Cyngor Tref Aberteifi | Cardigan Town Council | Eleri Maskell | Erin Burns | Lisbeth McLean | Llinos Jones | Louise O'Neill | Mark Lewis, Cardibanners | Nikki Lewis and OC Davies & Son | Non Davies | Reverend John Bennett | Sarah Moloney | Tai Wales & West Housing | Rhoddwyr ein Gwobrau | Our Prize Donors | Adventure Beyond | Be You Yoga | Bird Kitchen Clothing | Canfas / Anne Cakebread / Claire Wigley | Cardigan Bay Properties | CRWST | Cymdeithas Ffilm Theatr Mwldan / Theatr Mwldan Film Society | Dai Crabs | In The Welsh Wind | Jen Goss | Mantle Brewery | Mundos | Mwldan | Studio3 – Make It In Wales | The Albion | Truly Scrumptious | U Melt Me | Walden Arts | Yr Hen Printworks | Kathryn Hallett | Denise McQuade | Denise Hanrahan | Dermot McLaughlin

**Diolch arbennig iawn i'n tîm gwych tu ôl i'r llenni - i'n holl staff, criw, gwirfoddolwyr, Artistiaid, siaradwyr Clebran, perfformwyr, ein lleoliadau Llwybr Cerdd, Eglwys y Santes Fair a'r holl bobl sydd wedi gweithio mor galed i gyflwyno'r digwyddiad hwn. Yn olaf ond nid yn lleiaf, diolch i bobl Aberteifi am roi croeso mor gynnes i ni.**

A special thank you to our brilliant team behind the scenes! Here's to all of our staff, crew, volunteers, Artists, Clebran speakers, performers, our Music Trail venues, St Mary's Church and all the people who have worked so hard to put this event together. Last but not least to the people of Cardigan for giving us such a warm welcome.

South Wind Blows | Mwldan | Triongl

S4C | Rialtas na hÉireann / Government of Ireland | An Roinn Turasóireachta, Cultúir, Ealaíon, Gaeltachta, Spóirt agus Meán / Department of Tourism, Culture, Arts, Gaeltacht, Sport and Media

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru / Part Funded by Welsh Government | Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales

Caru·Love Ceredigion | RTÉ

**Llwyfannir Lleisiau Eraill Aberteifi gyda chefnogaeth a buddsoddiad Llywodraeth Cymru a'r Adran Twristiaeth, Diwylliant, Celfyddydau, Gaeltacht, Chwaraeon a Chyfryngau, ac fe'i cynhyrchir gan South Wind Blows mewn partneriaeth â'r Mwldan a Triongl. Bydd y digwyddiad yn cael ei ffilmio gan Triongl i'w ddarlledu nes ymlaen ar S4C ac RTÉ.**

Other Voices Cardigan is staged with the support and investment of Welsh Government and The Department of Tourism, Culture, Arts, Gaeltacht, Sport and Media and is produced by South Wind Blows in partnership with Mwldan and Triongl. The event will be filmed by Triongl for later broadcast on S4C and RTÉ.


Gwlad, Gwlad.
This is Wales.
Gwyliau i bob tymor.
Epic holidays, all year round.
Traeth Freshwater West, Sir Benfro
Freshwater West beach, Pembrokeshire
croeso.cymru
visitwales.com